



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian. Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX
FORE IAU, 19 GORFFENNAF 2016 am 10.30

Dolen gyswllt: Emma Wilkins (Rhif ffôn 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol dydd ar 15 Gorffennaf 2016. Mae hawl gan Gynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd i annerch yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443 424062 neu anfonwch e-bost i Cabinet@rctcbc.gov.uk

CYFLWYNIAD

Derbyn Swyddog Cydraddoldeb Rhanbarthol Undeb y GMB ar gyfer Rhanbarth Cymru a'r De-orllewin, a fydd yn cyflwyno tystysgrif i Garfan Materion Cydraddoldeb y Cyngor yn gydnabyddiaeth am ei gwaith mewn perthynas â'r Ymgyrch 'Time to Talk' yng Nghyngor Rhondda Cynon Taf.

MATERION I'W TRAFOD

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2016 yn rhai cywir.

3. ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio sy'n ceisio sêl bendith y Cabinet ar gyfer Adroddiad Monitro Blyneddol yn hylch yr Arddoll Seilwaith Cymunedol, ynghyd â chytuno i newid y Rhestr Rheoliad 123, cymeradwyo'r polisi Taliad Mewn Da, ac i nodi cais gan Gyngor Cymuned Llanharan fel sydd wedi'i nodi ym mharagraffau 4.14 i 4.17.

(Tudalennau 9-30)

4. CYFLEOEDD CRONFA DREFTADAETH Y LOTERI

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio sy'n rhoi trosolwg ar Raglenni Cronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer 2016/17 y bydd modd manteisio arnyn nhw ynglŷn â rhoi prosiectau treftadaeth ar waith ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

(Tudalennau 31-38)

5. AILDDATBLYGU SAFLE HEN GANOLFAN SIOPA DYFFRYN TAF/TAFF VALE

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio sy'n rhoi'r diweddaraf ynglŷn â'r hynt hyd yma mewn perthynas ag ailddatblygu safle'r Hen Ganolfan Siopa, ac i geisio cymeradwyaeth aelodau i fwrw ymlaen â'r camau nesaf arfaethedig ynglŷn â datblygu'r safle a'r ardal gerllaw.

(Tudalennau 39-44)

6. APÊL YNGLŷN Â SAFONAU'R GYMRAEG

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n rhoi'r diweddaraf i Aelodau ynglŷn â'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r apêl a gyflwynodd y Cyngor i Gomisiynydd y Gymraeg ynglŷn â Safonau'r Gymraeg.

(Tudalennau 45-50)

7. CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (SACRE)

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n nodi gwybodaeth am ddyletswyddau statudol y Cyngor i sefydlu Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (SACRE).

(Tudalennau 51-78)

8. CHWARTER 4 – MATERION CYFLAWNI AC ADNODDAU

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng-Flaen sy'n rhoi arolwg i Aelodau ar gyflawniad y Cyngor o ran materion ariannol a gweithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, 2016.

(Tudalennau 79-216)

9. ARGYMHELLION GWEITHGORAU CRAFFU

Derbyn adroddiad gan Ysgrifennydd i'r Cabinet sy'n rhoi gwybod i'r Aelodau am ganfyddiadau ac argymhellion y ddau weithgor craffu a gynhaliodd adolygiadau craffu mewn perthynas â materion Cyfraddau Cymryd Rhan mewn Ailgylchu a Chynnig am Waith a Gosod Gwaith ar Gynnig.

(Tudalennau 217-242)

10. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.”

11. CYNLLUN RHEOLI ASEDAU CORFFORAETHOL 2013/18

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n rhoi i Aelodau wybodaeth am y cynnydd ynglŷn â gweithredu'r cynllun gwaith sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2013/18 ar gyfer Asedau Eiddo.

(Tudalennau 243-258)

12. MATERION BRYS

Ystyried unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet

Cylchrediad:

Y Cynghorwyr: A Morgan (Cadeirydd)
M Webber (Is-gadeirydd)
R Bevan
A Crimmings
M. Forey
(Mrs) E. Hanagan
G. Hopkins
M Norris
(Mrs) J. Rosser

Swyddogion:

Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Chris Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Paul Lucas, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Tony Wilkins, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Colin Atyeo, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Chaffael
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus
Esther Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes
Jane Cook, Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Chynllunio
Paul Mee, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd:
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd